

# Wythnos Gwaith Ieuenctid

## Beth sy'n digwydd yng Nghanolbarth Cymru

## 1 – 7 Tachwedd 2009

## Digwyddiadau gwych i bobl ifanc ar draws Cymru

**GwaithIeuenctidCymru**

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cydlynwyd gan Gangen Marchnata a Strategaeth Gwaith Ieuenctid Ffôn: 029 2080 1344 E-bost: ywsmailbox@wales.gsi.gov.uk

# Diolch Sam.... Mae'n mynd i fod yn wych!

## Peidwch â methu Wythnos Gwaith Ieuenctid

Rhwng 1 – 7 Tachwedd, rydym yn cynnal llawer o ddigwyddiadau arbennig ar hyd a lled Cymru i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid – ac mae hynny ar ben y cannoedd ar gannoedd o weithgareddau, prosiectau a mentrau sydd fel arfer yn digwydd bob wythnos yng Nghymru!

Felly, os ydych chi'n berson ifanc sy'n edrych am rywbeth hynod ddiddorol a hwyliog i'w wneud, chwiliwch am y digwyddiadau yn eich ardal chi ac ewch yno!

Ewch yno, cewch amser mor dda, byddwch chi'n diolch i Sam am wneud i chi fynd!



## Felly, pwy yw Sam, rydyn ni'n eich clywed yn gofyn?

**Wel, mae Sam yn cynrychioli pob un ohonom sy'n ymwneud â Gwaith Ieuenctid.**

Nid yw Sam yn seren y byd pop, yn eicon chwaraeon, nac yn seren ar y teledu ond i nifer o bobl ifanc, mae Sam hyd yn oed yn fwy arbennig. Mae Sam yn Weithiwr Ieuenctid sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a phrofi pethau newydd.

Gall Sam wneud gwahaniaeth!



## Allech chi fod y Sam nesaf?

**Mae miloedd o 'Sams' allan yno, yn gweithio'n ddiflino dros bobl ifanc dan eu gofal a gallech chi fod yn un o'r rhain.**

Mewn ffaith, ar y cyfrif diwethaf, roedd 20,000 'Sam' yn ysbrydoli dros 200,000 o bobl ifanc yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Ond mae angen mwy. Rydym yn chwilio am bobl ifanc gyda'r nodweddion cywir i fod yn 'Sam' newydd. Ydych chi'n gymwys i'r gwaith?

### Gyrfâu mewn Gwaith Ieuenctid

I gael mwy o wybodaeth am yrfâu a gwirfoddoli mewn gwaith ieuenctid, ewch i:

**www.DiolchSam.co.uk**

# Pobl ifanc yn rhoi Llanymddyfri ar y map!

**Dychmygwch fap enfawr o Lanymddyfri sy'n gorchuddio'r llawr cyfan. Dychmygwch eich bod yn cael cyfle i roi eich stamp personol chi ar y map drwy ychwanegu paent a gludwaith fel ei fod yn adlewyrchu eich ardal, eich diddordebau a'ch bywyd.**



Yna dychmygwch fod gennych fwyd blasus, a bandiau lleol yn chwarae cerddoriaeth cŵl i ychwanegu mwy fyth o hwyl i'r noson. Wel, fydd ddim rhaid i bobl Llanymddyfri ddychmygu hyn – gallent ddod i YMCA Llanymddyfri a mwynhau'r profiad go iawn.

Dim ond un yw hwn o'r cannoedd o ddigwyddiadau rhagorol sydd ar waith yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid. Edrychwch i weld beth sy'n digwydd yn eich ardal chi.

### Diolch Sam.
### Mae noson wych ar y map i chi.



# Canfod talent yn Sir Drefaldwyn

**Maen nhw'n ifanc, maen nhw'n ddawnus ac maen nhw'n ôl gyda'u sioe ffantastig 'gan bwy mae'r dalent?' yn Sir Drefaldwyn.**

Yn dilyn ymlaen o'u digwyddiad llwyddiannus y llynedd, mae pobl ifainc yn ymuno â Gwasanaeth Ieuenctid Powys eto i chwilio am sêr ifanc sydd â'r ffactor X!

Mae cyfres o rowndiau cyntaf y sioe dalentau'n digwydd o amgylch y rhanbarth, a bydd y rhain yn gorffen gyda chyfle i'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol ymddangos mewn sioe glodfawr yn Theatr Hafren i gynulleidfa fydd yn cynnwys oddeutu 500 o bobl mae'n debyg!

Mae dau gategori – celfyddyd perfformio (canu, dawnsio, drama, sgiliau pêl-droed ac ati) a chelfyddyd weledol (ffotograffiaeth, peintio, cerameg ac ati), felly mae cyfle i bawb gymryd rhan.

Mae hwn yn ddigwyddiad rhagorol sy'n dod â phobl ifainc at ei gilydd o bob cwr o'r rhanbarth i ddangos eu doniau anghredadwy. Peidiwch â cholli cyfle.

### Diolch Sam.
### Dyna sioe dalentau wych!

# Gallwch weld bron i 400 o ddigwyddiadau ar-lein

# DiolchSam.co.uk

Cofiwch, dim ond arweiniad yw'r rhestr yma i'r hyn sy'n digwydd yn ystod Wythnos Gwaith Oedolion. I weld y rhestr gyflawn ewch i DiolchSam.co.uk Fe welwch wybodaeth am bron i 400 o ddigwyddiadau, a bydd nifer o ddigwyddiadau newydd wedi'u hychwanegu ar ôl i'r arweiniad yma fynd i'r wasg.

Felly, i gael y rhestr ddiweddaraf o ddigwyddiadau – gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â Sam! Os na allwch weld unrhyw beth yn y rhestr sy'n digwydd yn eich cymdogaeth chi, cysylltwch â'r ardal isod, a byddwn yn eich cysylltu â'ch clybiau neu brosiectau lleol.

## Diolch Sam – am gadw'r hwyl i fynd drwy'r flwyddyn gron!

Cofiwch, gallwch ddysgu sgiliau newydd, cyfarfod ffrindiau a chael hwyl drwy'r flwyddyn gron, nid yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid yn unig. Rhowch gynnig arni, cysylltwch â ni isod a chewch glywed am y clybiau a'r gweithgareddau sy'n digwydd ar eich stepen ddrws drwy'r flwyddyn gron.

### Sector Gwirfoddol

**CWVYS**

Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru yw'r corff ymbarél i fudiadau ieuenctid gwirfoddol. Mae'r rhain yn cynnwys mudiadau ieuenctid unffurf a chenedlaethol a mudiadau ieuenctid lleol sy'n darparu amrediad eang o weithgareddau i bobl ifanc.

Ffôn: 029 2047 3498 www.cwvys.org.uk/cy

### Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol

**Ceredigion**
Ffôn: 01545 572352
www.ceredigion.gov.uk

**Powys**
Ffôn: 01597 827615
www.powys.gov.uk/ieuenctid





## CERIDIGION

### ABERAERON

**Y Neuadd Goffa Aberaeron**
Ffordd y De, Aberaeron SA46 0DP

**Gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion**

**Cystadleuaeth Gwybodaeth Ieuenctid**
*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Llun 9 Tachwedd, 9am – 9am.*
Cystadleuaeth! Beth yw'r 10 Hawl? Rywle yn Adran Ieuenctid GGC (cisyp.ceredigion.gov.uk) mae'r 10 Ymestyn Hawliau. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Os gallwch, ebostiwch eich atebion gyda'ch enw, oed a'ch cyfeiriad at youth@ceredigion.uk. Bydd enw pawb sy'n cystadlu'n mynd i het! POB LWC!!!
**Ffôn:** Lara Pryse 01545 574931
**E-bost:** larap@ceredigion.gov.uk
cisyp.ceredigion.gov.uk

**Diwrnod Dathlu Gwobr Dug Caeredin**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 11.30am – 2pm*
Ydych chi'n byw yng Ngheredigion? Ydych chi wedi cwblhau neu wedi cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin eleni? Dewch i ddathlu'ch llwyddiant yn Neuadd Goffa Aberaeron 11:30-14:00 a dangoswch i ni beth a wnaethoch, dyma achlysur arbennig, bwffe blasus, croeso i bob rhiant, edrychwn ymlaen at eich gweld.
**Ffôn:** Suzanne Williams 01545 572352
**E-bost:** suzannewi@ceredigion.gov.uk

**Diwrnod dathlu**
*Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 11am – 3pm*
Diwrnod dathlu'r Gwasanaeth Ieuenctid i glybiau ieuenctid Ceredigion i gyd ddod at ei gilydd a dangos y gwaith da rydym wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Hwyl a chyflwyno tystysgrifau i bobl ifanc sydd wedi cwblhau hyfforddiant.
**Ffôn:** Andrea Edwards 01545 572352
**E-bost:** andreae@ceredigion.gov.uk

### ABERTEIFI

**Canolfan Ieuenctid Aberteifi**
2 Pont y Cleifion, Aberteifi SA43 1DW

**Dewch at eich gilydd**
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 10pm.*
Yn ystod yr Haf, fe wnaeth y Gwasanaeth Ieuenctid gynnal rhaglen o weithgareddau a alluogodd llawer o bobl ifanc o glybiau gwahanol i gymysgu. Bydd yr achlysur yma yn gyfle pellach i bobl ifanc ail gyfarfod ac adeiladu ar eu perthynas drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.
**Ffôn:** Lawrence Fleming 01545 572352
**E-bost:** lawrencef@ceredigion.gov.uk

### ABERYSTWYTH

**Canolfan Arad Goch**
Stryd y Baddon, Aberystwyth SY23 2NN

**Mae gan Aber Dalent**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd i Ddydd Sadwrn 7 Tachwedd, 4pm.*
Oes gan Aber Dalent? Dewch draw i'n wythnos glyweliadau gyda'ch dawn unigryw. Efallai'ch bod yn gallu canu neu ddawnsio, neu ddweud jôcs gwirion, dewch i roi cynnig arni beth bynnag. Cynhelir y rownd derfynol nos Sadwrn Tachwedd 7 a bydd gwobrau i'r talentau gorau a ddewisir gan ein beirniaid arbennig.
**Ffôn:** Ceredigion Youth Service 01545 572352
**E-bost:** youth@ceredigion.gov.uk

## LLANBEDR PONT STEFFAN

**Canolfan Steffan**
Teras Peterwell, Llanbedr Pont Steffan SA48 7BX
**Premiere Ffilm Clwb Ieuenctid Llambed**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9pm. Cynhelir y clwb ieuenctid bob nos Fercher 6.30pm – 9pm.*
Dewch i noson agoriadol ffilm fer y clwb ieuenctid, a fydd yn cael ei dangos i aelodau o'r gymuned.
**Ffôn:** Andrea Edwards 01545 572352
**E-bost:** andreae@ceredigion.gov.uk

## YSTRAD MEURIG

**Clwb Ieuenctid Ystrad Meurig**
Yr Hen Ysgol, Swyddffynnon, Ystrad Meurig SY25 6AL
**Noson Herio'r Rhieni**
*7pm – 10pm. Cynhelir y clwb ieuenctid bob nos Lun 7pm – 9pm.*
Dewch â'ch rhieni, gwarcheidwaid, ffrindiau neu berthnasau a'u herio i gystadlu yn gemau'r clwb ieuenctid, yn cynnwys pŵl, dartiau, tenis bwrdd, gemau cyfrifiadur a mwy!
**Ffôn:** Andrea Edwards 01974 831040
**E-bost:** ange6352@hotmail.com

## CLYBIAU IEUENCTID YNG NGHEREDIGION

**Ardal 43**
1 Pont y Cleifion, Aberteifi, Ceredigion SA43 1DW
**Ffôn:** Phil Layton 01239 614566
*Canolfan yn agored bob dydd*

**Clwb Ieuenctid Aberporth a'r Fro**
Canolfan Ieuenctid Aberporth, Parc Coronation, Aberporth SA43 2EU
**Ffôn:** Tony Tucker 01239 810387
*Dydd Llun a dydd Mercher, 6.15pm – 8.45pm*

**Canolfan Ieuenctid Aberteifi**
2 Pont y Cleifion, Aberteifi, Ceredigion SA43 1DW
**Ffôn:** Lawrence Fleming 01545 572352 / 01239 621148
*Dydd Mercher a dydd Iau, 6pm – 9pm.*

**Canolfan Ieuenctid Aberystwyth**
Canolfan Rathbone Cymru, Uned 3, Ffordd Alexandra, Aberystwyth SY23 1LN
**Ffôn:** Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion 01545 572352
*Dydd Mawrth, 4pm – 7pm, Dydd Sadwrn, 11am – 3pm.*

**Clwb Ieuenctid Cei Newydd**
Cei Dev, Y Neuadd Goffa, Ffordd Towyn, Cei Newydd SA45 9QQ
**Ffôn:** Hannah Orchard 01545 561460
*Dydd Iau a dydd Gwener 6pm – 9pm.*

**Clwb Ieuenctid Cymdeithas Gristnogol Emaus Llanbedr pont Steffan**
78 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan SA48 8AF
**Ffôn:** Dai Patterson 01570 422529

**Canolfan Ieuenctid Dihewyd**
Neuadd Pentref, Dihewyd, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7PN
**Ffôn:** Wendy Davies 01570 471305
*Dydd Mercher, 6.30pm – 9pm.*

**Clwb Ieuenctid Llanbedr pont Steffan**
Canolfan Steffan, Teras Peterwell, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7BX
**Ffôn:** Andrea Edwards 01545 572352
*Dydd Mercher, 6.30pm – 9pm.*

**Clwb Ieuenctid Llanddewi Brefi**
Canolfan y Gymuned, Llanddewi Brefi, Ceredigion
**Ffôn:** Michelle Hutton 01974 299206
*Clwb yn agored dydd Mawrth, 7pm – 9pm.*

**Clwb Ieuenctid Llangwyryfon**
Neuadd y Pentref Santes Ursula, Llangwyryfon, Ceredigion
**Ffôn:** Suzanne Williams 01545 572352
*Clwb ar agor 7pm – 9pm.*

**Clwb Ieuenctid Llanon**
Neuadd y Pentref, Llanon, Ceredigion
**Ffôn:** Harriet Sinclair 01974 202972 neu Martine Robson 01974 202771
*Clwb yn agored nos Iau.*

**Clwb Ieuenctid Ponterwyd**
Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3JX
**Ffôn:** Chris neu Geraldine Robinson 01970 890286
*Clwb yn agored dydd Gwener, 7pm – 10pm.*

**Clwb Ieuenctid Rhydlewis**
Neuadd y Pentref Rhydlewis, Rhydlewis, Ceredigion SA44 5PE
**Ffôn:** Linda Ashworth 01239 851791
*Clwb ar agor 6pm – 7.45pm*

**Clwb Ieuenctid Talybont**
Neuadd Coffa, Talybont, Aberystwyth SY24 5AP
**Ffôn:** Mair Nutting 01970 832725
*Clwb yn agored dydd Gwener, 7pm – 10pm.*

**Canolfan Ieuenctid Tysul**
Lôn Wesley, Llandysul, Ceredigion SA44 4QT
**Ffôn:** Steve Parkin 01559 362908
*Dydd Mawrth 6pm – 9pm, Dydd Mercher 4pm – 9pm, Dydd Iau 4pm – 9.30pm, Dydd Gwener 10am – 5pm.*

**Clwb Ieuenctid Ysbyty Ystwyth**
Neuadd y Pentref Ysbyty Ystwyth, Ysbyty Ystwyth, Ceredigion SY25 6DL
**Ffôn:** Ian Williams 01974 282387
*Clwb yn agored dydd Gwener, 7pm – 10pm.*

**Labordy Digi Aberaeron**
Portland Place, Aberaeron SA46 0AX
**Ffôn:** Lawrence Fleming 01545 572352
*Dydd Llun a dydd Mercher, 3pm – 7.30pm.*

# POWYS

## ABERHONDDU

**Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Aberhonddu**
4 Ffordd Cradoc, Aberhonddu LD3 9LG
**Y Ceffyl Gwyllt**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9pm*
Dewch i Ganolfan Ieuenctid Aberhonddu a rhyddhau'r cowboi/ferch ynddoch! Rhowch gynnig ar ein ceffyl gwyllt a gweld pa mor hir y gallwch aros ar ei gefn! Gwobrau i'r marchogion gorau.
**Ffôn:** Rhodri Jones 01874 622658
**E-bost:** breconyc@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

---

**Dering Lines**
Ffordd yr Orsaf, Aberhonddu LD3 7RA
**Arddangosiad Tân Gwyllt**
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 7pm – 9pm.*
Mwynhewch arddangosiad tân gwyllt yng Ngwersyll Dering Lines gyda Chanolfan Ieuenctid Aberhonddu. Cyfarfod y tu allan i'r gwersyll am saith o'r gloch a chael noson o liw a hwyl!
**Ffôn:** Rhodri Jones 01874 622658
**E-bost:** breconyc@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## CRUCYWEL

**Canolfan Gymunedol**
Heol Newydd, Crucywel NP8 1AW.
**Noson Agored**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6.30pm – 10pm. Digwyddiad unigryw.*
Noson llawn hwyl o adloniant byw gan gynnwys bandiau a dawnswyr yn fyw, byrbrydau a lluniaeth iachus. Noson i'w chofio o ansawdd uchel!
**Ffôn:** Mo Hand 07909 882581
**E-bost:** maureenh@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

**Clwb Ieuenctid Crucywel a Noson Arddangos HYPE**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6pm – 9pm.*
Ymunwch â ni i ddathlu llwyddiannau'r clwb a'r grŵp cyfranogiad pobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn cynnal dathliad cerddorol a ffotograffig yn y clwb i arddangos yr holl waith caled rydym wedi ei gyflawni! Bydd digonedd o fwyd, cerddoriaeth byw gan fandiau ifanc lleol yn ogystal ag ystod eang o weithgareddau eraill i sicrhau noson llawn hwyl, ac i frolio'n llwyddiannau i'r gymuned.
**Ffôn:** Wes Granger, Maureen Hand 01873 810996 / 07909 882581
**E-bost:** wesley.granger@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## LLANANDRAS

**Canolfan Hamdden Dwyrain Maesyfed**
Lôn Broadaxe, Llanandras LD8 2YT
**Chwaraeon Dan Do**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 5.30pm – 7.30pm. Yn rhedeg bob nos Lun yn ystod y tymor.*
Ydych chi'n awyddus i gymryd rhan mewn chwaraeon ond ddim yn sicr sut i gychwyn? Os felly, dewch draw i'r Ganolfan Hamdden! Os ydych o ddifrif am chwaraeon, neu awydd trio rhywbeth newydd, bydd ystod eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys pêl droed, pêl fasged, badminton a sboncen.
**Ffôn:** Angie Heins 01597 827586
**E-bost:** angie.heins@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk/ieuenctid

---

**Canolfan Ailgylchu Llanandras**
Swyddfeydd Sant Ioan, Pumffordd, Llandrindod LD1 5ES
**Prosiect Symudol Dwyrain Maesyfed – Noson Agored**
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 8pm*
Bydd y Prosiect Symudol ar agor i chi gwrdd â'r tîm gwaith ieuenctid, troi llaw i'r Cyfrifiaduron am ychydig o hwyl neu am rywbeth mwy heriol... Cewch hefyd ddiod boeth i'ch cynhesu.
**Ffôn:** Angie Heins 01597 827586
**E-bost:** angie.heins@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk/ieuenctid

## LLANDRINDOD

**Canolfan Ieuenctid Llandrindod**
Yr Undercroft, Ffordd y Sba, Llandrindod LD1 5EY
**Ymarferiadau ar gyfer Cyflwyniad Canolbarth Powys**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 6pm – 8.30pm*
Dewch i ymuno mewn sesiwn llawn hwyl yng Nghanolfan Ieuenctid Llandrindod. Bydd ein sesiwn yn cynnwys gwneud cardiau, gwneud gemwaith, sesiwn sgiliau pêl droed, gwaith celf ar gynfas a choginio. Mae'r sesiwn hwn yn baratoad i'n Cyngerdd Cyflwyniad Canolbarth Powys a gynhelir ddydd Gwener, 6ed o Dachwedd.
**Ffôn:** Katie Lloyd 01597 822909
**E-bost:** katie.lloyd1@powys.gov.uk



# Amddiffyn eich hawliau

**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu fod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru hawl sylfaenol i gael y cyfle i fyw bywyd hapus a chyflawn.**

Yn 2004, euthum ati i fabwysiadau  Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ar gyfer ein gwaith llunio polisïau i gyd i blant a phobl ifainc.

Dan y CCUHP bydd hawl gan bob person ifanc dderbyn addysg o ansawdd da, mynediad i wybodaeth gywir a llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

- Addysg o ansawdd da (Erthyglau 28 a 29)
- Mynediad i wybodaeth gywir (Erthyglau 13 ac 17)
- Cyfranogi rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12)
- Gofal iechyd a safon dda o fyw (Erthyglau 24 a 27)
- Chwarae a hamdden (Erthyglau 15 a 31)
- Defnyddio iaith ac arferion eich teulu (Erthygl 31)
- Triniaeth deg yn y system gyfiawnder troseddol (Erthyglau 37 a 40)
- Gwybod beth yw'r hawliau hynny (Erthygl 42).

## Wythnos Gwaith Ieuenctid yn rhoi tic ymhob blwch

Felly, gallwch weld sut y gall Wythnos Gwaith Ieuenctid, a Gwaith Ieuenctid yn gyffredinol, chwarae rôl mor bwysig i'n helpu oll i gyflawni ein hymrwymiad i bobl ifainc Cymru.

Mae digwyddiadau fel hyn yn rhoi'r cyfle i bobl ifainc ddysgu sgiliau newydd, cael gafael ar gefnogaeth a gwybodaeth am addysg, gofal iechyd, a mynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt drwy gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp a fforymau.

I gael rhagor o wybodaeth am y CCUHP ac i gael rhestr lawn o erthyglau'r confensiwn, edrychwch ar:

www.cliconline.co.uk/uncrc_cymraeg

Clic yw'r Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth Genedlaethol i bobl ifainc 11-25 yng Nghymru ac mae wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Pwrpas y prosiect yw rhoi gwybodaeth a chyngor mewn fformatau hawdd eu defnyddio i helpu pobl ifainc i wneud penderfyniadau deallus a sicrhau bod hwn ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau drwy Gymru er mwyn sicrhau fod pobl ifainc yn gallu cael gafael arno.

### Prosiect Stryd Gelf Llandrindod
*Dydd mawrth 3 Tachwedd – Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 9am – 3.30pm.*
Edrych i greu celf stryd newydd a all gael ei arddangos mewn mannau amlwg o gwmpas Llandrindod a fydd yn adlewyrchu diwylliant a threftadaeth yr ardal, ond eisiau rhoi safbwynt pobl ifanc arno? Prosiect gyda chymorth yr heddlu lleol a wnaiff ymrwymo pobl ifanc sydd yn anodd cyfathrebu â hwy, mewn gweithdai 5 diwrnod a wnaiff ddatblygu sgiliau a'ch galluogi i fynegi eich syniadau unigryw.
**Ffôn:** Geoff Wilks 01597 827568
**E-bost:** geoff.wilks@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

### Cystadleuaeth Bêl droed
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6.30pm – 8.30pm*
Gwisgwch eich esgidiau pêl droed ac ymuno yn ein cystadleuaeth pêl droed clybiau'r ardal! Gemau i fechgyn, merched a thimoedd cymysg. Cyflwynir tarianau i'r enillwyr yn noson odidog CYFLWYNIAD Canolbarth Powys ar ddydd Gwener 6ed Tachwedd. Dewch draw – cyfle i redeg o gwmpas a chwrdd pobl newydd!
**Ffôn:** Katie Lloyd 01597 822909
**E-bost:** katie.lloyd1@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

### Noson Agored a digwyddiad Cysylltiadau Cyhoeddus
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 9pm.*
Mae'r Grŵp Rhyddid yn grŵp ar gyfer LGBTQ (pobl ifanc Lesbiad, Hoywon, Deuryw, Trawsryw a phobl ifanc sy'n chwilfrydig) sy'n byw ym Mhowys. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob mis am ddigwyddiad cymdeithasol ac i rannu profiadau ac mae'n agored i bawb. Cynhelir y Noson Agored yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol a bydd yn rhoi cyfle i hyrwyddo ein gwasanaeth ac i ddathlu ein llwyddiannau dros y flwyddyn. Felly dewch i'n gweld ni!
**Ffôn:** Becky Jayne 01597 827531
**E-bost:** rebecca.jayne@powys.gov.uk

### CYFLWYNIAD Canolbarth Powys
*Dydd Gwener 6 Tachwedd, 7pm – 9.30pm*
Powys – noson yn arddangos talentau'r clwb ieuenctid lleol gyda chynhyrchiad o ganeuon, sgitiau ac adloniant. Rhowch gais ar ein cystadleuaeth pŵl, a gwrandewch ar DJs lleol, prynwch gynnyrch crefft y clwb – gemwaith, cardiau a ffotograffiaeth, porwch drwy ein galeri a bwyta bwyd ffres wedi'i wneud gan aelodau'r clwb.
**Ffôn:** Katie Lloyd 01597 822909
**E-bost:** katie.lloyd1@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

---

**Y safle bws**
Y safle bws gyferbyn a'r Llys Ynadon

### Fan Gwybodaeth Ieuenctid 'Galwch heibio'
*Dydd gwener 6 Tachwedd, 3.30pm – 5pm.*
*Bob yn ail ddydd Gwener*
Sesiwn wybodaeth agored i chi gael edrych o amgylch y fan Gwybodaeth Ieuenctid, gofyn cwestiynau ac edrych ar y taflenni gwybodaeth. Gwasanaeth cwbl gyfrinachol yw hwn, os nad oes angen cael cymorth eraill i ddatrys rhywbeth.
**Ffôn:** Angie Heins 01597 827586
**E-bost:** youthinfo@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk/ieuenctid

## LLANELWEDD
**Maes y Sioe Frenhinol Cymru**
Llanelwedd LD2 3NJ

### Diwrnod Maes CFfI Brycheiniog
*Dydd Sadwrn 31 Hydref, 9.30am – 4pm.*
Digwyddiad grêt sy'n cael ei drefnu gan CFfI Brycheiniog. Dewch i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys crefftau, siarad cyhoeddus, hyrwyddo, beicio cwad, Adeiladu Ffensiau a chwisiau. Croeso i unrhyw aelodau newydd neu aelodau potensial ddod draw am flas o'r hyn sydd gan y CFfI i'w gynnig.
**Ffôn:** Claire Price 01874 612207
**E-bost:** clairepr@powys.gov.uk
www.brecknockyfc.co.uk

## LLANFAIR YM MUALLT
**Clwb Ieuenctid Llanfair ym Muallt**
Canolfan Gymunedol Glan yr Afon,
Stryd y Castell, Llanfair ym Muallt LD2 3BN

### Dadorchuddio'r Cwrs Cyfeiriannu
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6pm – 8.30pm.*
Byddwn yn cyflwyno'r cwrs cyfeiriannu, gydag aelodau o Gyngor y Dref yn cymryd rhan, gan ddangos i bobl ifanc y gallwch lwyddo gydag agwedd bositif, a dangos i'r gymuned pa mor gryf y gall ymglymiad pobl ifanc fod i'w cymunedau. Bydd y diwrnod yn annog byw'n iach gan gynnig gweithgaredd llawn hwyl i bobol Llanfair ym Muallt, ac i aelodau'r clwb gael gwneud rhywbeth gwahanol.
**Ffôn:** Jessica Hazlewood 01597 822909
**E-bost:** jessica.hazlewood@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk/ieuenctid

### Clec Celf
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 9pm.*
Mae Clec Celf yn cyrraedd Clwb Ieuenctid Llanfair ym Muallt – cyfres o gleciau celf 30 eiliad – ceisiwch wneud campwaith yn trefnu blodau mewn 30 eiliad, cerflun jync neu fodel o daten, neu beth am geisio gwneud hunan bortread wrth wisgo mwgwd? Dewch i drio rhywbeth gwahanol, i weld beth rydym ni'n ei wneud ac am ychydig o hwyl. Bydd y Cleciau Celf buddugol yn cael eu harddangos yn sioe CYFLWYNIAD Canolbarth Powys ar ddydd Gwener 6ed Tachwedd.
**Ffôn:** Jess Hazlewood 01597 822909
**E-bost:** jessica.hazlewood@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## LLANIDLOES
**Canolfan Ieuenctid Llanidloes**
Mount Lane, Llanidloes SY18 6EY

### Dathliad Ieuenctid Llanidloes
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Clwb ar agor bob Dydd Mawrth a Dydd Iau 7pm – 9.30pm.*
Dathlu llwyddiannau'r holl bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwasanaeth ieuenctid gyda seremoni wobrwyo. Croeso i deuluoedd a chyfeillion. Bwffe i bawb.
**Ffôn:** Anita Jenkins 01686 614035
**E-bost:** anita.jenkins@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

### Cystadleuaeth Guto Ffowc Gorau
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 9pm. Clwb yn rhedeg bob Dydd Mawrth a Dydd Iau 7pm – 9.30pm.*
Dewch i weld ein casgliad Guto Ffowc wedi'u gwneud gan bobl ifanc Llanidloes a'r ardaloedd cyfagos. Caiff yr arddangosiadau eu beirniadu ar y noson tân gwyllt swyddogol (gweler y wasg leol am fanylion). Trafodwch gyda'ch gweithwyr ieuenctid lleol yn Llanidloes a chymerwch ran!
**Ffôn:** Anita Jenkins 01686 614035
**E-bost:** anita.jenkins@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## LLANFAIR CAEREINION
**Tŷ'r Ysgol Caereinion**
Llanfair Caereinion, Powys

### Sesiwn Wybodaeth Ieuenctid
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 1pm – 2pm. Gweler eich gweithwyr ieuenctid am wybodaeth bellach.*
Beth am ddod i'n sesiwn wybodaeth i bobl ifanc ar y Bws Symudol sydd â llwyth o wybodaeth ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc yng nghefn gwlad Powys. Rydym n barod i wrando mewn awyrgylch groesawgar gyda gwên a digonedd o egni!
**Ffôn:** Helen Coleby 01938 811393
**E-bost:** helen.coleby@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

### Grŵp Fforwm Ieuenctid TAG
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 4pm – 6pm.*
Cyfarfod rheolaidd ar ddydd Iau cyntaf y mis ble byddwn yn trafod pethau sy'n effeithio pobl ifanc yn yr ardal, trefnu teithiau a thrafod materion cyfoes.
**Ffôn:** Helen Coleby 01938 811393
**E-bost:** helen.coleby@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## MACHYNLLETH
**Adain Ieuenctid Bro Ddyfi**
Ysgol Uwchradd Machynlleth, Machynlleth SY20 8DR

### Gŵyl Lanterni Helyg
*Dydd Sadwrn 31 Hydref, 6pm – 8pm.*
Dewch i ymuno yng Ngorymdaith Gŵyl Goleuni Lanterni Helyg drwy'r stryd fawr a draw i'r Plas ac yna arddangosfa tân gwyllt. Dewch â'ch lantern eich hun i gymryd rhan yn yr orymdaith.
**Ffôn:** Cathy Evans 01654 702794
**E-bost:** cathy.evans@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

### Noson Hawaiaidd
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9pm.*
Yn dilyn llwyddiant y llynedd rydym yn cynnal Noson Hawaiaidd arall!! Gallwch wneud eich hoff goctel di-alcohol, a gweld pa mor isel y gallwch fynd o dan y polyn limbo!! Gwobr am y corff sy'n plygu orau a'r crys mwyaf llachar.
**Ffôn:** Cathy Evans 01654 702794
**E-bost:** cathy.evans@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## RHAEADR GWY
**Clwb Ieuenctid Rhaeadr**
Neuadd Dolgerddon, Dark Lane, Rhaeadr Gwy LD6 5DA

### Noson Gelf a Chrefft
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 9pm*
Dewch i Glwb Ieuenctid Rhaeadr i fwynhau noson gelf a chrefft. Rhowch gais ar wneud cardiau pen-blwydd neu wneud breichled, mwclis neu beth bynnag sy'n apelio yn ein gweithdy gemwaith. Dewch i ddysgu sgil newydd ac am sbort a sbri.
**Ffôn:** Melody Haszczyn 07990 602783
**E-bost:** melody.haszczyn@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

### Cyflwyniad Canolbarth Powys
*Dydd Gwener 6 Tachwedd, 6pm – 9pm*
Dewch i gwrdd â ni yng Nghlwb Ieuenctid Rhaeadr ac fe fyddwn yn teithio i Landrindod am noswaith o weithdai celf a chrefft gydag adloniant ar lwyfan a ddarperir gan ieuenctid lleol o Raeadr, Llandrindod a Llanfair ym Muallt. Dewch i gwrdd ag aelodau o glybiau eraill ac i weld beth sydd gan Glybiau Ieuenctid eu cynnig yn y maes yma i chi.
**Ffôn:** Melody Haszczyn 07990 602783
**E-bost:** melody.haszczyn@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## TALGARTH

**Canolfan Ieuenctid Talgarth**
Lôn yr Ysgol, Talgarth, Powys
**Dyma Dalgarth!**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6.30pm – 9.30pm.*
Mae Clwb Ieuenctid Talgarth yn gwahodd holl bobol ifanc Talgarth sydd o dan 25 oed am noson llawn hwyl o adloniant, cerddoriaeth a dawns. Bydd bwyd a lluniaeth a'r gael.
**Ffôn:** Mo Hand 07909 882581
**E-bost:** maureenh@powys.gov.uk

**Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Talgarth**
Lôn yr Eglwys, Talgarth LD3 0LD
**Noson Agored**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9.30pm.*
Dewch draw i Ganolfan Ieuenctid Talgarth i ymuno yn yr hwyl. Am un noson yn unig, dewch i'r clwb am ddim ac ymuno yn y gweithgareddau sydd ar gael, cyfarfod y gweithwyr ieuenctid a gwneud ffrindiau newydd. Helpwch ni i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid ac arddangos y clwb ieuenctid a'r hyn mae'r holl bobl ifanc wedi eu cyflawni o fewn y gymuned.
**Ffôn:** Maureen Hand 07909 882581
**E-bost:** maureenh@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## TREF Y CLAWDD

**Asgell Ieuenctid Tref y Clawdd**
Ffordd Llwydlo, Tref y Clawdd LD7 1HR
**Gweithdai Ffyrdd o Fyw Iachus**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6pm – 8.30pm. Prosiect Ieuenctid Tref y Clawdd bob dydd Mawrth / dydd Iau yn ystod y tymor.*
Cyfres o weithdai'n edrych ar sut all bobl ifanc ystyried eu ffordd o fyw ac ymdrin â materion sy'n ymwneud â delwedd gorfforol a sut mae eraill yn ein gweld, ynghyd â'r budd sy'n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n amlygu ochr gadarnhaol ymarfer corff.
**Ffôn:** Debbie Chillery 01547 529379
**E-bost:** debbie.chillery@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk/youth

**Sesiwn Mynediad Agored**
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 8.30pm. Prosiect Ieuenctid Tref y Clawdd bob Dydd Mawrth / Dydd Iau yn ystod y tymor.*
Dewch i ddefnyddio cyfleusterau'r Aden Ieuenctid. Cyfle i chwarae pŵl, canu carioci, cicio pêl yn y Neuadd, neu ymlacio yn y caffi a chael sgwrs gyda'n gweithwyr ieuenctid. Rydym hefyd yn rhedeg rhaglen Dug Caeredin felly chwiliwch am gyfleoedd i gymryd rhan.
**Ffôn:** Debbie Chillery 01547 529379
**E-bost:** debbie.chillery@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## Y DRENEWYDD

**Clwb Ieuenctid y Drenewydd**
Lôn Plantation, Y Drenewydd SY16 1LQ
**Campweithiau Coed**
*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Llun i Iau bob wythnos.*
Dewch i weld beth ellir ei wneud allan o bren, o bensiliau i gerfluniau gwych a rhoi cynnig arni eich hun. Bydd hyfforddwr yn dangos i chi sut mae trin coed a chewch chithau dro ar y noson. Felly peidiwch â bod yn benstiff ac aros adre, dewch i droi'ch llaw at waith coed, neu dim ond dod draw ac ymuno yn hwyl y clwb!
**Ffôn:** Kate Williams 01686 629808
**E-bost:** kate.williams@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

**Sesiwn Agored Clwb Ieuenctid**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 9.30pm. Llun i Iau bob wythnos.*
Mae croeso i chi ymuno â sesiynau agored eich clwb ieuenctid lleol a gweld beth allwch ei wneud gyda'ch brwdfrydedd chi a'n hymroddiad ni. Mae'n clwb ni'n gwneud pethau gwych o gartio i hwylio a phêl-droed i Alton Towers. Felly peidiwch bod yn ddiflas – dewch i ddatblygu'ch potensial!
**Ffôn:** Kate Williams 01686 629808
**E-bost:** kate.williams@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

**Theatr Hafren**
Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd SY16 4HU
**Mae gan Maldwyn Dalent**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6.30pm – 9.30pm.*
Rownd derfynol cystadleuaeth dalent Sir Drefaldwyn, ble byddwn yn mynd ag enillwyr o'r rhagbrofion lleol i Theatr Hafren i'r Rownd Derfynol. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Helen Coleby 01938 811393
Cathy Evans 01654 702794
**E-bost:** helen.coleby@powys.gov.uk
cathy.evans@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## Y GELLI GANDRYLL

**Canolfan Gymunedol**
Ffordd Rhydychen, Y Gelli Gandryll, HR3 5AJ
**Sialens Celf Graffiti**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 6pm – 8.30pm.*
Dewch i greu eich bwrdd celf graffiti eich hun neu ddysgu sut i argraffu. Dewch i brofi eich gallu celf. Dewch i'r Gelli a dangos beth allwch ei gyflawni! Peintio chwistrell, byrddau a'r holl ddeunyddiau celf yma ar eich cyfer. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Mo Hand, Bryan Turner 07909 882581
**E-bost:** maureenh@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## Y TRALLWNG

**Canolfan Ieuenctid y Trallwng**
Howel Drive, Y Trallwng
**Bywyd ar Ffilm**
*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Mawrth 3 Tachwedd, 1pm – 4pm. oriau yn ystod y tymor yw 7pm – 9.30pm dydd Llun i ddydd Iau.*
Cyfle i bobl ifanc fyfyrio a dathlu bywyd bob dydd yn y Trallwng, ac i edrych ar y materion hynny sy'n effeithio arnoch chi a'ch cymuned drwy ffilm. Diweddglo'r prosiect fydd arddangosfa o'r gwaith yn Neuadd y Dref. Darperir yr holl offer. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Matt Evans 01938 554719
**E-bost:** matthew.evans@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## YSTRADGYNLAIS

**Canolfan Ieuenctid Ystradgynlais**
Hendreladus, Heol Aberhonddu, Ystradgynlais SA9 1SE
**Dweud eich dweud**
*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 8.30pm*
Beth am ail lansio'r fforwm ieuenctid! Dewch i ddweud eich dweud ar faterion sy'n bwysig i chi. Dewch i gwrdd â gweithwyr ieuenctid a'r heddlu lleol i drafod eich pryderon a'ch syniadau. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Marcia Davies 01639 843711
**E-bost:** gurnosyc@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

**Cystadleuaeth Coginio 'Ready Steady Cook'**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 8.30pm.*
Dewch draw ac ymunwch yn yr hwyl! Bydd y gystadleuaeth ar ffurf y rhaglen deledu 'Ready Steady Cook'. Dewch draw i'r ganolfan a choginio pryd o fwyd dau gwrs!
**Ffôn:** Marcia Davies 01639 843711
**E-bost:** gurnosyc@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## SIR DREFALDWYN

**Theatr Hafren**
Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd SY16 4HU
**Mae gan Maldwyn Dalent**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9.30pm*
Mae 'Mae gan Maldwyn Dalent' yn ei ôl! Bydd yn fwy a hyd yn oed yn well na'r llynedd gyda'r ffeinal yn cael ei gynnal yn Theatr Hafren @ 7pm. Mae yna ddwy adran, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau creadigol! Mynnwch eich ffurflen gais o'ch canolfan ieuenctid lleol, eich llyfrgell neu'ch ysgol a chwiliwch am yr hysbysebion yn eich ardal i ddarganfod mwy neu, beth am ddod draw a gwylio ar y noson.
**Ffôn:** Neil Rees 01686 614039 / 07920 137880
**E-bost:** neil.rees@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## CYMRU GYFAN

**Eich Llais, Eich Dewis – Gweithdai cymryd rhan**
*Dydd Sul 1 Chwefror i Ddydd Mawrth 1 Rhagfyr, 9am – 11am.*
Gallwn ddod draw at eich grŵp pryd bynnag rydych yn cyfarfod fel arfer.
"Dim byd i neud!" – "Mae'n &%@! fan hyn" – "a sneb yn gwrando!" Gweithdy 2 awr yw Eich Llais, Eich Dewis a all eich helpu i ddod i wybod mwy am gael rhywun i wrando ar eich barn a'r dewisiadau yn eich grŵp ieuenctid lleol, eich ysgol neu weithgaredd newydd arall. Mae'n gyfle i ganfod mwy am gymryd rhan drwy gemau a gweithgareddau ac mae 'freebies' ar gael hefyd. Os nad oes neb yn gwrando arnoch chi, dewch draw! Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Ness, Sionedwyn, Nancy 01792 466231
**E-bost:** admin@dynamix.ltd.uk
www.dynamix.ltd.uk
**Cyswllt:** Dynamix Ltd, Uned 4D, Ffordd y Cwm, Hafod, Abertawe, SA1 2AY

## CLYBIAU IEUENCTID AR DRAWS CYMRU

**Taith Fforwm Ieuenctid Byddar DEFFO**
*Yn rhedeg yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid yn unig.*
Byddwn ni (Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain a fforwm ieuenctid DEFFO) yn hoffi cwrdd â chi (gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc) led Cymru er mwyn rhannu ein syniadau a'r sut y gallem gael ein cynnwys yn eich gwasanaethau, rhannu syniadau a chefnogi. Cewch gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel blasu Iaith Arwyddion Prydain, chwaraeon a dod i'n hadnabod (ieuenctid byddar a gweithwyr ieuenctid). Dewch draw i gael hwyl gyda'n gilydd!
Am wybodaeth bellach ynglŷn â lleoliadau, cysylltwch â Cathie Robins-Talbot yn:
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru, Canolfan Diwylliant BSL, 47 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AD.
**Ffôn:** Cathie Robins-Talbot 08451 302851
**E-bost:** cathier-t@bda.org.uk
www.bda.org.uk

Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys neu argaeledd y digwyddiadau a hyrwyddir yn y canllaw hwn, ac er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyflenwir yn gywir, argymhellwn eich bod yn cysylltu â'r trefnwyr i gadarnhau'r dyddiadau, amseroedd ac argaeledd cyn cychwyn teithio i ddigwyddiad.